**Vaughan Gething AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-P-VG-0283-18

Aelodau'r Cynulliad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

30 Ionawr 2018

Annwyl Aelodau'r Cynulliad,

Ar 9 Ionawr, yn ystod y cwestiynau busnes, codwyd materion yn ymwneud â lleoedd hyfforddi i feddygon iau yng Nghymru. Cadarnhaodd Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip fy mharodrwydd i roi eglurder ynghylch y trefniadau ar gyfer ariannu'r lleoedd hyn.

Mae addysgu a hyfforddi meddygon yn gymhleth. Mae myfyrwyr meddygol israddedig yn astudio rhaglenni addysg am gyfnod rhwng 4 a 6 blynedd, yn dibynnu a ydynt wedi ymgeisio am raglen safonol neu raglen mynediad i raddedigion.

Ar ôl graddio, y prif lwybr hyfforddi yw astudio rhaglen sylfaen dwy flynedd ac yna dechrau ar hyfforddiant arbenigol a fydd yn amrywio o ran hyd gan ddibynnu ar yr arbenigedd. Gall y cyfnod hyfforddi hwn bara rhwng 3 ac 8 mlynedd.

Mae'r trefniadau isod yn ymwneud â chyllid ôl-raddedig ac nid yw'n cynnwys cyllid ar gyfer myfyrwyr meddygol israddedig gan fod trefniadau cyllido ar wahân ar eu cyfer nhw.

Mae'r ffigurau diweddaraf gan Deoniaeth Cymru yn cadarnhau bod 2509 o feddygon yn hyfforddi yng Nghymru ar hyn o bryd.

Mae'r model cyllid presennol yn adlewyrchu'r cydbwysedd rhwng darparu gwasanaethau ac elfennau dilyniant hyfforddiant meddygon iau yng Nghymru. Mae'r gost cyflog sylfaenol wedi'i rhannu'n gyfartal rhwng GIG Cymru (a ariennir o'u dyraniad craidd yn ôl disgresiwn) a Deoniaeth Cymru (drwy ddyraniad Cyflog Gradd Hyfforddiant Llywodraeth Cymru). Mae hyn yn dangos bod gan y cyrff cyflogi a'r Ddeoniaeth gydberchnogaeth a chydgyfrifoldeb dros sicrhau bod yr hyfforddeion yn datblygu i'r lefelau disgwyliedig yn y swyddi o ran cael profiad, meithrin sgiliau a chymhwysedd.

Caiff rhai o'r swyddi newydd un ai eu hariannu'n uniongyrchol gan y Ddeoniaeth am 100% o gost cyflog sylfaenol, neu 100% gan y corff sy'n cyflogi. Fodd bynnag, elfen fach yw'r rhain o gyfanswm y swyddi ar gyfer meddygon dan hyfforddiant. Ochr yn ochr â chostau cyflog

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

sylfaenol, mae pob swydd hyfforddi yng Nghymru hefyd yn cael cyfraniad o £600 ar gyfer amser astudio (gan gynnwys y rheini sy'n cael eu hariannu'n llawn gan y corff sy'n cyflogi).

Yn ogystal â'r uchod, mae cyllid ar gael yng nghyllideb ganolog Deoniaeth Cymru i dalu am gostau'r canlynol:

- swyddi ychwanegol sydd eu hangen er mwyn cynnal hyfforddeion sydd â gofynion ychwanegol nad oes modd eu lleoli yn y swyddi presennol sydd ar gael.
- costau ychwanegol Byrddau Iechyd mewn perthynas â chynnal hyfforddeion sy'n gweithio'n rhan-amser.

**Lleoedd hyfforddi ychwanegol**

Yn y gorffennol, roedd y broses a ddilynwyd o ran ystyried lleoedd hyfforddi ychwanegol yn un ad hoc heb ffordd strategol o weithio, ac roedd yn cael ei ystyried ar wahân i'r broses gomisiynu anfeddygol. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, aethpwyd ati i ganolbwyntio'n fwy strategol gan sicrhau bod yr amserlenni ar gyfer gwneud penderfyniadau am leoedd hyfforddi meddygol, deintyddol a lleoedd hyfforddi anfeddygol yn cyd-fynd yn well.

Mewn perthynas â swyddi hyfforddiant meddygol a deintyddol, cyflwynwyd cyfres o argymhellion gan Grŵp Gweithlu Meddygol Strategol Cymru Gyfan – sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r gwasanaeth iechyd a Deoniaeth Cymru dan gydgadeiryddiaeth Cyfarwyddwr Meddygol y GIG a Chyfarwyddwr Gweithlu'r GIG. Bydd yr argymhellion hyn yn cael eu hystyried gan Brif Weithredwyr y GIG ochr yn ochr â'r argymhellion ar gyfer lleoedd hyfforddi anfeddygol. Yna, caiff yr argymhellion a barn y Prif Swyddogion eu hystyried gan Fwrdd Gweithredol GIG Cymru gyda rhestr lawn o argymhellion yn cael eu cyflwyno i'r Gweinidogion.

Mae hyn wedi arwain at gyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu i gefnogi swyddi hyfforddi newydd yng Nghymru, gan gynnwys ym maes radioleg glinigol, offthalmoleg, histopatholeg a meddyginiaeth yr henoed.

Mae'r broses hon yn sicrhau bod barn y GIG a rhanddeiliaid allweddol eraill yn rhan o'r gwaith o lunio'r argymhellion er mwyn ystyried mwy na barn Deoniaeth Cymru yn unig.

**Ansawdd yr Hyfforddiant**

Mae gan Deoniaeth Cymru rôl bwysig i'w chwarae i sicrhau bod y rhaglenni hyfforddi yn bodloni gofynion y Cyngor Meddygol Cyffredinol o ran ansawdd a safonau, ond hefyd o ran dod i gysylltiad â'r lefel ofynnol o weithdrefnau. Mae modd i'r Ddeoniaeth dynnu swyddi hyfforddi yn ôl o fwrdd iechyd os nad yw'r safonau hyn yn cael eu diwallu. Os daw anawsterau i'r amlwg â swyddi hyfforddi, bydd Deoniaeth Cymru a chorff y GIG dan sylw yn trafod i weld a oes modd datrys y problemau cyn cymryd unrhyw gamau i symud hyfforddeion.

Rwy'n gobeithio bod yr uchod yn rhoi dealltwriaeth well i chi o'r system sydd ar waith.

Yn gywir,



**Vaughan Gething AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Services